Thomas Gee, 1815–98
Argraffydd, pregethwr, newyddiadurwr, gwleidydd

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd cyhoeddi yn hanes Cristnogaeth yng Nghymru. Yr oedd dylanwad y wasg enwadol yn enfawr, yn enwedig yn y 19eg ganrif pan oedd cymaint o ddarllen ar gyhoeddiadau Cymraeg. Ar wahân i gyfarfodydd cyhoeddus, i lawer o Gymry Cymraeg y cyfnodolion oedd unig ffynhonnell gwybodaeth ar faterion ysbrydol, cenedlaethol, rhyngwladol, moesol, amaethyddol a llu o bynciau eraill. Gwelodd llawer o gymwynaswyr dros y canrifoedd werth cyhoeddiadau Cristnogol Cymraeg ac enill bywoliaeth trwyddynt – yn rhannol, beth bynnag – ac un o'r cyfryw rai oedd Thomas Gee. Y mae llawer dull, diolch i'r drefn, o wasanaethu teyrnas Dduw.

Cysylltir enw Thomas Gee fynychaf gyda thref Dinbych ac yno y'i ganed, 24 Ionawr 1815. Yr oedd yn un o saith o blant i Thomas Gee a Mary Foulkes, Hendre'r Ŵydd, a sefydlodd ei dad wasg argraffu gyda Thomas Jones, Dinbych, yn y dref ym 1809. Eglwyswyr oeddent ar y dechrau, er eu bod yn mynychu ambell oedfa yn y Capel Mawr ond aethant yn aelodau at y Methodistiaid Calfinaidd ym 1830. Bu Thomas Gee mewn ysgol gynradd yn Ninbych ac yna aeth i Wrecsam i Ysgol Grove Park. Pan oedd yn bedair ar ddeg oed cychwynnodd ar brentisiaeth saith mlynedd fel argraffydd yn swyddfa ei dad gan barhau i fynychu Ysgol Ramadeg Dinbych yn achlysurol. Fe'i hanogwyd i fynd yn offeiriad yn yr Eglwys, yn feddyg ac yn dwrnai, ond penderfynodd barhau fel argraffydd. Wedi gorffen ei brentisiaeth bu'n gweithio o 1836 hyd 1838 yn swyddfa Eyre a Spottiswoode yn Llundain, lle y bu'n mynychu eglwys Jewin Crescent. Dychwelodd i Ddinbych ym 1838 a dechreuodd bregethu drwy anogaeth Lewis Edwards, Coleg y Bala, a dros y blynyddoedd pregethodd yn gyson.

Priododd â Susannah, merch John Hughes, Plas Coch, Llangynhafal ym 1842, a chawsant naw o blant. Yn dilyn marwolaeth ei dad cymerodd y wasg drosodd ym 1845 ac yn yr un

flwyddyn ymddangosodd *Y Traethodydd* o dan olygyddiaeth Lewis Edwards. Y gwaith mwyaf a ymgymerodd ag ef oedd *Y Gwyddoniadur* o dan olygyddiaeth y Parch. John Parry, y Bala. Yr oedd hwn yn waith arloesol yn y Gymraeg oherwydd iddynt ymdrechu nid i gyfieithu, ond i lunio o'r newydd ddeg cyfrol o wybodaeth amrywiol Gymraeg a Chymreig. Cyfrannodd oddeutu dau gant o bobl i'r cyfanwaith ac fe gostiodd tua £20,000 i'w gynhyrchu, gan ymddangos ym 1878.

Ym 1857 ymddangosodd wythnosolyn dylanwadol arall o'r wasg, sef *Baner Cymru* dan olygyddiaeth y Parch. William Rees (Gwilym Hiraethog), John Hughes a Thomas Jones. Unwyd *Baner Cymru* gyda'r *Amserau* ym 1859 ac fe'i cyhoeddwyd am gyfnod wrth yr enw *Baner ac Amserau Cymru*. Trwy gyfrwng *Y Faner* daeth Thomas Gee yn ddyn dylanwadol gyda'i farn yn cario ymhell.

Daeth *Y Faner* yn un o'r llwyfannau i syniadaeth Ymneilltuol Gymraeg ac yn gyfrwng i drafod a dadlau am bynciau llosg y dydd fel addysg, gwleidyddiaeth, dirwest (a gyrhaeddodd uchafbwynt gyda Deddf Cau Tafarnau ar y Sul yng Nghymru ym 1882), datgysylltiad yr Eglwys, dileu'r dreth eglwys, bugeiliaeth eglwysig a phynciau eglwysig. Trwy gydol ei oes bu Thomas Gee yn weithgar gyda'r ysgol Sul, yn gynghorydd lleol, yn henadur gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ac yn ddirwestwr sobr o frwd. Bu farw ddydd Mercher, 28 Medi 1898, yn 84 oed wedi cyflawni dydd ardderchog o waith i'w Arglwydd ac i'w genedl. Ar Hydref 3 rhoddwyd ei weddillion i orffwys yn y Gladdfa Newydd, Dinbych.